**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (32)**

**Dydd Iau, 22 Tachwedd 2001**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau ar Gyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Gymeradwyo Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001**
*NDM847 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

NDM847 Jocelyn Davies (Ddwyrain De Cymru)

*Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn gofyn i'r Gweinidog adolygu'r trefniadau ad-dalu a'r gwasanaethau sy'n gymwys gyda golwg ar gynnwys trafnidiaeth gymunedol fel gwasanaeth cymwys o dan orchymyn yn y dyfodol, ac yn gofyn i'r Gweinidog roi adroddiad am ganlyniad yr adolygiad hwn i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth erbyn mis Mawrth 2002.

*NDM848 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001;

3. Yn cymeradwyo'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weld y rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

**Eitem 4**
**Gymeradwyo Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001**

*NDM849 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001.

*NDM850 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2001;

3. Yn cymeradwyo'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2001

Cliciwch yma i weld y rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

**Eitem 5**
**Cynnig i Gymeradwyo The Sheep and Goats Spongiform Encephalopathy (England & Wales) (Compensation) (Amendment) Order 2001**
***NDM851 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:***

Gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

Yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, The Sheep and Goats Spongiform Encephalopathy (England & Wales) (Compensation) (Amendment) Order 2001, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weld y rheoliadau drafft *- ar gael yn Saesneg yn unig*

**Bydd y gweinidog dros Fusnes y Cynulliad yn cynnig Cynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn yr eitem ganlynol ymlaen**

**Eitem 6**
**Cymeradwyo Cyllideb Swyddfa'r Llywydd**
*NNDM845 John Marek (Wrecsam);*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 19.5A, yn cytuno â'r newid yn lefel yr adnoddau a ddyrannwyd i'r prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd a'i fabwysiadu ar gyfer y Swyddfa ar gyfer 2002-2003 a'r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol fel y'u nodir yng Nghyllideb Ddiwygiedig Swyddfa'r Llywydd ar gyfer 2002-03 i 2004-05, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weldy gyllideb - *Ar gael yn Saesneg yn unig ac ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*

**Eitem 7**
**Gymeradwyo'r gyllideb derfynol**

*NDM852* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.3, yn mabwysiadu'r gyllideb derfynol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2002-2003, 2003-2004 a 2004-2005, o osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mercher 14 Tachwedd gan y Gweinidog dros Gyllid, Edwina Hart.

Cliciwch yma i weld gyllideb derfynol - *Ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*

**Eitem 8**
**Adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg**

*NDM853 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn croesawu cwblhau'r Adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i argymhellion yr Adolygiad.

*Mae'r fersiwn Gymraeg o'r Adroddiad Interim ar yr Adolygiad Pum Mlynedd ar gael ar y Rhyngrwyd yn:* http://www.cymru.gov.uk/subieconomics/content/wlb/contents_w.htm

*Mae'r fersiwn Saesneg o'r Adroddiad Interim ar yr Adolygiad Pum Mlynedd ar gael ar y Rhyngrwyd yn:* http://www.wales.gov.uk/subieconomics/content/wlb/contents_e.htm

*Mae'r fersiwn Gymraeg o'r Adroddiad Terfynol ar yr Adolygiad Pum Mlynedd ar gael ar y Rhyngrwyd yn:* http://www.cymru.gov.uk/subieconomics/content/wlbfinal/cover-w.htm

*Mae'r fersiwn Saesneg o'r Adroddiad Terfynol ar yr Adolygiad Pum Mlynedd ar gael ar y Rhyngrwyd yn :* http://www.wales.gov.uk/subieconomics/content/wlbfinal/cover-e.htm

*Cafodd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i argymhellion yr Adroddiad ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2001.*

Cliciwch yma i weld ymateb Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Ni fydd yr Adroddiad Interim na'r Adroddiad Terfynol ar gael ar We'r Siambr**

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

**Jocelyn Davies (Ddwyrain De Cymru)**

**Gwelliant 1:**

*Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir yn yr Adolygiad Pum Mlynedd i'r strategaeth lwyddiannus ar gyfer dysgu iaith i oedolion yng Ngwlad y Basg ac yn anelu at gael strategaeth sydd yr un mor gadarn ar gyfer Cymru.

**Jocelyn Davies (Ddwyrain De Cymru)**

**Gwelliant 2:**

Yn pwysleisio bod angen rhoi cymorth digonol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg fel y gall gyflawni ei swyddogaethau o ran hybu’r iaith Gymraeg, yn enwedig trwy addysg a hyfforddiant.

**Eitem 9**
**Dadl Fer:**
*NDM846* **Ann Jones (Dyffryn Clwyd); Cymdeithas y Plant**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm.**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 27 Tachwedd 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**